



Gweinyddiaeth
CYFIAWNDER

Ministry of
JUSTICE

Datrys anghydfodau yn y llysoedd sirol: creu system symlach, gyflymach a mwy cymesur

Ymgynghoriad ar ddiwygio
cyfiawnder sifil yng Nghymru a
Lloegr

Ymateb y Llywodraeth

Chwefror 2012

Cyflwyniad a Manylion Cysylltu

Adroddiad ôl ymgynghori ar gyfer y papur ymgynghori, 'Datrys anghydfodau yn y llysoedd sirol: creu system symlach, gyflymach a mwy cymesur' yw'r ddogfen hon.

Bydd yn ymdrin â:

- cefndir yr adroddiad
- crynodeb o'r ymatebion i'r adroddiad
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr adroddiad
- camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Mae copïau pellach o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori i'w cael drwy gysylltu â **Judith Evers** yn y cyfeiriad isod:

Civil Justice and Legal Services Policy
Ministry of Justice
Postpoint 4.19, 102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

Ffôn: 020 3334 3182

E-bost: CivilTJ@justice.gsi.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael ar wefan y Weinyddiaeth:
www.justice.gov.uk

I gael fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill cysylltwch â
CivilTJ@justice.gsi.gov.uk/020 3334 3182.

Crynodeb o'r ymatebion

1. Daeth cyfanswm o 319 o ymatebion i'r papur ymgynghori i law. O'r rhain, daeth 44% oddi wrth aelodau'r proffesiwn cyfreithiol ac 11% oddi wrth gyfryngwyr/sefydliadau darparu gwasanaethau cyfryngu. Daeth ymatebion i law hefyd gan y sector cynghori, y farnwriaeth, busnesau, yswirwyr, awdurdodau lleol, banciau, academyddion, a'r cyhoedd.
2. Dadansoddwyd yr ymatebion fesul cwestiwn er mwyn canfod a oes cytundeb gyda'r cynigion a gaiff eu datgan yn y papur ymgynghori. Hefyd, roedd gennym yr un diddordeb mewn darllen y rhesymau gan y rheini nad oeddent am weld newid yn y meysydd a ddynodir, neu'r rheini a oedd â chynigion amgen eu hunain.
3. Mae'r canlynol yn crynhoi'r ymatebion yn unol â'r pedair pennod ar y gwahanol themâu a welir yn y papur ymgynghori.

Rhwystro cynnydd mewn costau

4. Rhoddai'r bennod hon sylw i ddulliau o gadw costau'r llys yn isel drwy ddefnyddio trothwyon ariannol, protocolau cyn achos a chostau sefydlog.
5. Roedd cefnogaeth gyffredinol i ymestyn y cynllun ar gyfer hawliadau damweiniau traffig ar y ffordd sydd â gwerth isel (cynllun anafiadau personol damweiniau traffig ar y ffordd), ac i gyflwyno trefn hawlio symlach debyg ar sail cost sefydlog ar gyfer achosion anaf personol eraill. Fodd bynnag, gan mai dim ond yn Ebrill 2010 y dechreuwyd gweithredu'r cynllun, roedd diffyg tystiolaeth o'i effeithiolrwydd, yn ogystal â phroblemau cychwynnol gyda phorth electronig y diwydiant, cynghorai ymatebwyr y dylid gofalu rhag ymestyn y cynllun, neu gyflwyno cynlluniau tebyg, yn rhy gyflym.
6. Ni cheir awydd cryf am ddatblygu cyfarwyddiadau gorfodol cyn achos; er bod cefnogaeth i gynyddu'r uchafswm ar gyfer hawliadau bychain.

Dulliau amgen o ddatrys anghydfodau

7. Trafodai'r bennod hon ddulliau o gynyddu defnyddio gwasanaethau cyfryngu a'r wybodaeth sydd ar gael amdanynt.
8. Cafwyd cefnogaeth i'r holl hawliadau bychain gael eu cyfeirio'n awtomatig i wasanaeth cyfryngu, ar y ddealltwriaeth nad oedd hwn yn gyfryngu gorfodol, ond yn hytrach yn ofyniad i gysylltu â chyfryngwr hawliadau bychain gyda golwg ar ystyried cyfryngu. Fodd bynnag, roedd dipyn llai o gefnogaeth i sesiynau gwybodaeth am gyfryngu gorfodol.

Adennill dyledion a gorfodi

9. Mae'r bennod hon yn cynnwys amrywiol ddiwygiadau i orfodi gyda'r nod o wella effeithiolrwydd prosesau gorfodi, lleihau dyblygu a symleiddio gweithdrefnau.
10. Cefnogai'r mwyafrif o'r ymatebwyr weithredu'r darpariaethau yn y Ddeddf Llysoedd, Tribiwnlysoedd a Gorfodaeth 2007 ("y Ddeddf LITG"), darpariaethau y mae'r Senedd eisoes wedi'u cymeradwyo. Roedd mwyafrif bychan o blaid trothwy isaf ar gyfer ceisiadau gorchymyn gwerthu. Roedd mwyafrif mawr yn cefnogi llawer o'r cynigion moderneiddio a symleiddio prosesau eraill sy'n gysylltiedig â gorfodi.
11. Roedd mwyafrif yr ymatebion yn mynegi safbwyntiau cadarn am gynnal awdurdod a gwarchodaeth y llys gyda gorfodi dyledion, yn hytrach na chaniatáu prosesau gorfodi'n uniongyrchol gan drydydd partion.

Diwygiadau strwythurol

12. Trafodai'r bennod hon newidiadau yn yr awdurdodaeth rhwng y llys sirol a'r Uchel Lys a chreu un llys sirol.
13. Cafodd y cynigion i wneud diwygiadau strwythurol gefnogaeth gadarn, yn benodol, sefydlu un llys sirol ar gyfer Cymru a Lloegr; cynnydd yn awdurdodaeth ecwiti'r llys sirol o £30,000 i £350,000; a chynnydd yn y trothwy ariannol ar gyfer achosion i'w cychwyn yn yr Uchel Lys o £25,000 i £100,000.

Casgliadau a'r camau nesaf

14. Yn dilyn yr ymatebion i'r ddogfen ymgynghori, mae'r Llywodraeth wedi cytuno ar becyn o fesurau i ddiwygio'r broses cyfiawnder sifil.

Rhwystro cynnydd mewn costau

Ymestyn uchafswm ariannol y cynllun Anafiadau Personol Damweiniau Traffig ar y Ffordd (RTA PI) a chyflwyno cynlluniau tebyg ar gyfer hawliadau anafiadau personol eraill

15. Er bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi egwyddor ymestyn y cynllun RTA PI, cynghorai lawer iddynt ochel rhag gwneud hynny'n rhy gyflym. Yn Ebrill 2010 yn unig y cafodd y cynllun ei lansio a gwybodaeth reoli gyfyngedig sydd ar gael i alluogi gwerthuso ei effaith. Felly, er bod y Llywodraeth yn bwriadu cynyddu uchafswm ariannol y Cynllun RTA PI i £25,000, rhoddir ystyriaeth i amseriad yr ymestyn, yn dilyn gwerthusiad llawn o'r cynllun RTA PI presennol. Yn dilyn hynny, byddwn yn cyhoeddi ein asesiad terfynol o effaith yr ymestyn arfaethedig.
16. Mewn perthynas â chynllun tebyg ar gyfer hawliadau atebolrwydd cyflogwyr a hawliadau atebolrwydd cyhoeddus, mae'r Llywodraeth yn ymwybodol o'r pryderon penodol a godwyd ynghylch materion esgeulustod cyfrannol ac achosiaeth. O ganlyniad, er ein bod yn bwriadu cyflwyno cynllun ar gyfer hawliadau o'r fath, mae ymgynghori pellach gyda'r rhanddeiliaid allweddol yn ofynnol er mwyn cytuno ar y manylion.
17. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder hefyd yn bwriadu gweithio'n agos gydag Awdurdod Ymgyfreitha'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (NHSLA) a'r Adran Iechyd i werthuso eu cynllun peilot ar gyfer hawliadau esgeulustod clinigol cyn ystyried cyflwyno cynllun tebyg ar gyfer hawliadau esgeulustod clinigol gwerth isel.

Datblygu cyfarwyddiadau cyn achos gorfodol

18. O safbwynt datblygu cyfarwyddiadau cyn achos gorfodol ar gyfer hawliadau ariannol dan £100,000, teimlai llawer fod y protocolau cyn achos presennol yn ddigonol. At ei gilydd felly, nid yw'r Llywodraeth yn argymhell datblygu cyfarwyddiadau cyn achos gorfodol nes i ni ystyried effeithiolrwydd y protocolau cyn achos presennol ac a ellid symleiddio'r rhain ac os felly, sut, er mwyn sicrhau proses symlach a mwy cost effeithiol.
19. Yn benodol, o safbwynt y protocolau cyn achos ar gyfer ôl-ddyledion rhent a morgeisi, teimlwyd nad gorfodaeth oedd yr ateb i ddiffyg cydymffurfio,

ond i'r llysoedd ddefnyddio'r pwerau sydd ganddynt eisoes yn fwy effeithiol.

Gweithredu system costau adferadwy sefydlog, tebyg i'r hyn a gynigiwyd gan yr Arglwydd Ustus Jackson yn ei adolygiad o gostau ymgyfreitha sifil.

20. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymestyn y system costau adferadwy sefydlog yn amodol ar drafodaethau pellach gyda'r rhanddeiliaid allweddol ond nid cyn i'r broses RTA PI estynedig gael ei gwerthuso ac i benderfyniad terfynol gael ei wneud ar ei hymestyn i hawliadau gwerth uwch a meysydd ymgyfreitha anafiadau personol eraill. Nid yw'r gwaith felly yn debygol o ddechrau cyn 2012/13 ar ei gynharaf.

Cynyddu uchafswm y trac hawliadau bychain

21. O safbwynt yr uchafswm hawliadau bychain, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr naill ai'n ffafrio dim cynnydd neu gynnydd o hyd at £10,000, yn hytrach na ffigur mor uchel â £15,000. O'r herwydd, caiff yr uchafswm ar gyfer hawliadau bychain ei gynyddu i £10,000. Fodd bynnag, ac ystyried y ceid hefyd gefnogaeth sylweddol i gynyddu uchafswm y trac hawliadau bychain i £15,000, nod y Llywodraeth yw cynyddu'r uchafswm ymhellach o £10,000 i £15,000 yn y dyfodol ar ôl gwerthuso'r cynnydd i £10,000 yn llawn. Ni fydd dim newid i'r uchafswm presennol ar gyfer hawliadau dadfeiliad tai nac anafiadau personol.
22. Bwriedir hefyd newid y Rheolau Trefniadaeth Sifil (Rheol CPR 26.7(3)), i ganiatáu i'r farnwriaeth gyfeirio anghydfodau busnes-wrth-fusnes ac achosion addas eraill, gyda gwerth yr anghydfod yn dros £10,000, i'r trac hawliadau bychain heb fynnu caniatâd y partion. Bydd gan y farnwriaeth hefyd yr opsiwn o gyfeirio achosion mwy dyrys, y mae gwerth yr achos yn llai na £10,000, i'r trac cyflym os credir bod hynny'n briodol hefyd.
23. Gan mai ond yn 2010 y cynyddwyd yr uchafswm trac cyflym i £25,000, ac roedd yr ymatebwyr yn amlwg wedi'u rhannu ynghylch a ddylid ei gynyddu eto, nid yw'r Llywodraeth yn argymhell cynnydd pellach ar hyn o bryd.

Dulliau amgen o ddatrys anghydfodau

24. Dylai'r holl hawliadau bychain gael eu cyfeirio'n awtomatig i wasanaeth cyfryngu, ar y sail nad cyfryngu gorfodol yw hwn, ond yn hytrach ofyniad i gysylltu â chyfryngwr hawliadau bychain. Mae dadansoddi pellach yn ofynnol ar sut y dylid cyflenwi'r gwasanaeth orau – yn ôl pob tebyg drwy gyfuniad o gyfryngwyr mewnol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM), wedi'u hategu gan ddarparwyr cyfryngu masnachol a sifil dan gontract gyda GLITEM. Ac ystyried y datblygu pellach sy'n ofynnol, mae'n debygol yn y lle cyntaf, y caiff achosion sydd â gwerth o hyd at £5,000 eu cyfeirio'n awtomatig i wasanaethau cyfryngu. Dim ond ar ôl i'r

25. Nid yw'n fwiad cyflwyno sesiynau gwybodaeth gorfodol ar gyfer hawliadau gwerth uwch. Fodd bynnag, cydnabyddir bod diffyg gwybodaeth o hyd am ddefnyddio dulliau amgen o ddatrys anghydfodau a chyfryngu fel peirianwaith i ddatrys anghydfodau. Cynigir felly y dylem asesu effeithiolrwydd yr wybodaeth am gyfryngu a gyflenwir drwy gyfrwng amrywiol ddulliau, gan gynnwys y teleffon, wyneb-wrth-wyneb, y rhyngwyd ac fel fformat copïau caled ar amrywiol gamau yn y broses cyn ac ar ôl cyflwyno. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder hefyd yn bwriadu gweithio gyda Chymdeithas y Cyfreithwyr i atgyfnerthu'n well rôl y proffesiwn cyfreithiol, wrth drafod opsiynau gyda'u cleientiaid, i esbonio a fyddai cyfryngu neu ryw ddull amgen arall o ddatrys anghydfodau yn fwy priodol nag ymglyfreitha, gan fod hyn eisoes wedi'i ddatgan yn y 'canllawiau gofal i gleientiaid' yng Nghod Ymddygiad y Cyfreithwyr (Rheol 2.02(1) (b)).
26. Cynigir bod partion mewn hawliadau bychain gwerth isel yn cael cyfle i ddewis a ddylai eu hawliad bychain gael ei benderfynu ar bapur, ond dim ond os yw'r barnwr yn cytuno bod yr achos yn briodol. Ni ddylai'r cynnig i ddefnyddio rhagor ar wrandawiadau teleffon mewn achosion hawliadau bychain gael ei fwrw ymlaen nes bod opsiynau technolegol mwy dibynadwy ar gael i'r llysoedd.
27. Gan nad yw Cyfarwyddeb Cyfryngu'r UE ond newydd ddod i rym ym mis Mai 2011, mae'n rhy fuan cyflwyno darpariaethau tebyg ar gyfer anghydfodau domestig. Mae adolygiad manwl o'r gyfraith ddomestig bresennol, ar y cyd â'r proffesiwn cyfreithiol a chyfryngu, yn ofynnol er mwyn pennu pa fathau o ddarpariaethau, os o gwbl, sy'n angenrheidiol.
28. Bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn parhau i gydweithio â'r Cyngor Cyfryngu Sifil (CMC) er mwyn gwneud y broses achredu ar gyfer darparwyr cyfryngu yn fwy cadarn, ynghyd â mesurau posib i alluogi cyfryngwyr unigol i hefyd gael eu hachredu gan y CMC, neu gorff arall.

Adennill dyledion a gorfodi

29. Bydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen gyda chychwyn Adran 93 o'r Ddeddf Llysoedd, Tribiwnlysoedd a Gorfodaeth 2007 (LITG) (caniatáu gorchmynion tâl mewn ceisiadau lle mae gorchmynion rhandaliadau wedi'u sefydlu).
30. Bydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen gyda chychwyn Adran 94 Deddf LITG 2007 i gyflwyno trothwy isaf o £1,000 mewn ceisiadau am orchmynion gwerthu, ond yn ei gyfyngu i ddyledion dan Ddeddf Credyd Defnyddwyr.

31. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod yr ymateb cadarnhaol iawn i'r cynnig i weithredu darpariaethau Adran 91 a 92 Deddf LITG 2007 er mwyn cychwyn darpariaethau ar gyfer tablau sefydlog Atafaelu Enillion a Gorchmynion Orlhain. Mae'r Llywodraeth yn cytuno mewn egwyddor y bydd y diwygiadau hyn yn arbed adnoddau a chostau'r llys ac y dylid eu gweithredu pan fydd adnoddau ar gael i wneud hynny.
32. Byddwn yn symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer cael Gorchmynion Dyled Trydydd Parti a Gorchmynion Arwystlo.
33. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod yr ymateb cadarnhaol i'r cynnigion i gyflwyno Gorchmynion Gwybodaeth a Cheisiadau am Wybodaeth, fel yr amlinellir yn Adrannau 95-105 Deddf LITG. Mae'n cytuno mewn egwyddor y byddai'r rhain yn gam cynyddol, pwysig tuag at wella effeithiolrwydd opsiynau gorfodi, a bydd yn eu gweithredu'r darpariaethau hyn pan fydd adnoddau ar gael i wneud hynny
34. Nid ydym yn bwriadu parhau â chynigion i ymestyn awdurdod y gorchymyn dyfarniad llys i ddarparwyr trydydd parti ar hyn o bryd. Y rheswm am hyn yw grym y ddadl yn erbyn cael gwared â gwarchodaeth ac awdurdod y llys o'r broses orfodi.
35. Ynghylch datganoli holl weinyddiaeth gorfodi sifil i'r llys sirol, byddwn yn parhau i gywreinio'r polisi ynghylch awdurdodaethau gorfodi i ganiatáu i weinyddiaeth yr holl orfodi sifil nad yw'n gysylltiedig â beiliaid gael ei gwneud yn y llys sirol.

Diwygiadau strwythurol

36. Bydd y Llywodraeth yn cynyddu'r uchafswm ariannol, y caniateir i hawliadau ecwiti, dan yr uchafswm hwn gychwyn yn y llysoedd sirol, o £30,000 i £350,000.
37. Bydd yr uchafswm ariannol, na chaniateir i hawliadau heb fod yn rhai anafiadau personol dan yr uchafswm hwn gychwyn yn yr Uchel Lys, yn cael ei gynyddu o £25,000 i £100,000.
38. Caiff Rheoliadau Unioni Cam Llysoedd Sirol 1991 eu diwygio i ymestyn y pŵer i ganiatáu gorchmynion rhewi i farnwyr cylchdaith sydd â thocyn priodol yn y llysoedd sirol.
39. Bydd hawliadau arbenigol – am amrywio ymddiriedolaethau, hawliadau penodol dan y Ddeddf Cwmnïau a deddfwriaeth arbenigol arall, megis cynlluniau trefniadaeth, lleihau cyfalaf, cynlluniau trosglwyddo yswiriant a chyfuniadau traws ffiniol, yn cael eu dileu o awdurdodaeth y llysoedd sirol a'u rhoi dan awdurdodaeth yr Uchel Lys yn unig. Cynhelir trafodaethau pellach rhwng swyddogion y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r farnwriaeth i

40. Bydd y gofyn i gael caniatâd yr Arglwydd Ganghellor cyn y caniateir i farnwr Uchel Lys eistedd mewn llys sirol yn cael ei ddiddymu, a chyflwynir darpariaeth gyffredinol i alluogi barnwyr yr Uchel Lys i eistedd fel barnwr yn y llys sirol, yn unol â'r galw.
41. Bydd un llys sirol, a fydd yn gweithredu fel un endid cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr, yn cael ei sefydlu. Bydd yr un llys sirol yn disodli strwythur presennol y llys sirol drwy ddileu ffiniau awdurdodaeth a daearyddol sy'n galluogi tai llysoedd sirol i gynrychioli'r dosbarth lle maent wedi'u lleoli a gweithredu gyda'u hunaniaeth eu hunain.